Taith wastad, ond eithaf maith yw hon, yn cynnwys cerdded ar lonydd tarmac gwledig, llwybrau drwy gaeau amaethyddol a thro ar hyd traeth tywodlyd Porth Neigwl. Trowch yn ôl i edrych ar y daith o Fotwnnog – mae'r môr yn bwyta'r tir yn gyflym yn y fan hon a fydd dim llawer o'r morfa ar ôl ymhen 600 mlynedd yn ôl gwyddonwyr.

## Manylion y daith

**Amcan o hyd**: 15km/9.3 milltir.

**Amcan o'r amser**: 6 awr.

**Map AO**: graddfa 1:25 000 Explorer 253.

**Man cychwyn/gorffen**: Maes Parcio Congl Meinciau, Botwnnog, SH262 312.

## Mynediad a chyfleusterau

**Parcio**: Maes Parcio Congl Meinciau, Botwnnog; lle i 26 car. LL53 8RA.


**Bws**: Gweler gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

**Toiledau**: Congl Meinciau, Botwnnog (gweler oriau agor conglmeinciau.org.uk; 01758 770440).

**Lluniaeth**: Congl Meinciau, Botwnnog;
Tafarn y Sun, Llanengan (01758 712660).

## Nodwch

- Gwell osgoi pen llanw uchel ar draeth Porth Neigwl.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad:
  ***Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch***
  naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf




Eryri
Mynyddoedd a Môr

Cylchdaith


# 12 Botwnnog




## Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

O ganol pentref Botwnnog, ger yr hen Swyddfa Bost, croeswch y ffordd a dilyn llwybr drwy'r cae at ffordd wledig sy'n eich arwain tua'r chwith i gyfeiriad y groesffordd. Oddi yno, cerdded ar lwybr drwy gaeau neu cyrraedd ffordd drol a throi i'r chwith am eglwys Llandygwnning. Ymlaen ar lôn wledig heibio Saithbont a Neigwl Ganol a throi i'r chwith i'r llwybr sy'n eich arwain i Langïan. Dilyn ffordd wledig oddi yno i Lanengan, a llwybr drwy'r caeau wedyn cyn belled â fferm Nant ym mhen mwyaf deheuol Porth Neigwl. Oddi yno, mae tro braf ar dywod y bae at y fynedfa drwy'r twyni i'r maes parcio. I'r dde ar y lôn darmac wledig i gyfeiriad Llanengan ac yna i'r chwith, gan ddilyn Llwybr yr Arfordir drwy dir gwastad, amaethyddol i ffordd ym mhen arall Porth Neigwl, rhwng ffermydd Saith Bont a Thŷ Mawr. Yna, dilyn y llwybr sy'n dirwyn yn ôl drwy gaeau amaethyddol, heibio ffermydd Rhosneigwl a Neigwl Uchaf at lwybr rhan gyntaf y daith sy'n mynd â chi'n ôl i bentref Botwnnog.










## Mannau o ddiddordeb

Eglwys Gwnin Sant yw **Eglwys Llandygwnning** ①. Mae'r tŵr crwn yn nodwedd bensaernïol unigryw i'r eglwys hon ac mae pulpud dwbwl ynddi yn ogystal.


Eglwys hynafol a thlws yw **Eglwys Llangïan** ②. Mae yno faen coffa o'r 5ed neu'r 6ed ganrif yn y fynwent, a thu mewn i'r eglwys gwelir nifer o feini coffa i filwyr a chlerigwyr teulu uchelwrol Edwards Plas Nanhoron.

Mae llwybr amlwg yn mynd o Bont Newydd, rhwng Llangïan a Llanengan i fyny'r llechwedd i **Ben-y-gaer** ③. Hen fryngaer Geltaidd yw hon ac mae'n werth dringo ati er mwyn edmygu'r golygfeydd yn unig.

Mae **Eglwys Llanengan** ④ yn un o eglwysi harddaf Cymru. Mae carreg goffa ynddi i Einion, brenin Llŷn a nawddsant y plwyf a sylfaenydd yr abaty ar Enlli. Dywedir bod clychau'r eglwys hon a'r sgrîn dderw Ganol Oesol hynod o hardd wedi dod yno o abaty Enlli pan gafodd hwnnw ei ddifrodi.

Mae'r llwybr yn mynd heibio hen simnai gwaith mwyn ar gyrion y pentref - **Simnai Llanengan** ⑤. Tynfa wynt i waith plwm Tanrallt oedd hon ers talwm a daeth nifer o fwynwyr o Gernyw i weithio yno yn anterth y diwydiant hwnnw.

Mae prif geryntoedd cefnfor Iwerydd yn taro traeth **Porth Neigwl** ⑥, sy'n wynebu'r de-orllewin. Aeth llawer o longau i drafferthion mewn stormydd wrth geisio lloches yma ond yna'n cael eu cloi rhwng dau bentir a'u hangorion yn methu eu dal yn y bae tywodlyd. Caent eu hyrddio o flaen y gwynt nes eu bod yn deilchion ar y traeth. Mae'r un tonnau mawr yn rhoi pleser yma heddiw, ond maent hefyd yn gyfrifol am erydu'r twynni tywod bob gaeaf. Canfuwyd hen gafn bragu 3,500 o flynyddoedd oed yn allt y môr ger ffermdy Nant yn 2009 (gweler canolfan ymwelwyr Cwrw Llŷn; Cylchdaith Nefyn, rhif 6).




Yng nghornel dde-ddwyreiniol Porth Neigwl, cwyd yr allt at **Fynydd Cilan** ⑦. Hen dir comin yw hwnnw, sy'n cynnig tro crwn i'w gerdded uwch clogwyni'r môr. Mae olion Castell Einion, ffynnon Cilan a hen dai unnos y tir comin yn ychwanegu at apêl yr ardal.

Yng nghefn Botwnnog, byddwch yn sylwi ar gopa **Garn Fadryn** ⑧ i'r gogledd-ddwyrain. Mae nifer o olion cytiau crynion o'r Oes Haearn ar ei lechweddau ac mae gweddillion un o'r cestyll cerrig cynharaf o'r 12fed ganrif y tu mewn i'r fryngaer ar y copa.

**www.ymweldageryri.info**

# 12 Botwnnog Circular walk

This is a flat but quite long walk involving walking on country tarmac roads, agricultural farmland paths and across part of Porth Neigwl's sandy beach, also known as 'Hell's Mouth' in English. Looking back at your route from Botwnnog, you'll see that the land here is being rapidly eroded by the sea and, according to scientists, there won't be much of the salt-marsh left in 600 years' time.

## Walk details

**Approx. Distance**: 15km/9.3 miles.

**Approx Time**: 6hrs.

**OS Map**: 1:25 000 scale Explorer Map 253.

**Start/Finish**: Congl Meinciau car park, Botwnnog; SH262 312.

## Access and amenities

**Parking**: Congl Meinciau car park, Botwnnog; 26 spaces. LL53 8RA.


**Bus**: Llŷn Coastal Bus service: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

**Toilets**: Congl Meinciau, Botwnnog (see opening hours: conglmeinciau.org.uk; 01758 770440).

**Refreshment**: Congl Meinciau, Botwnnog; Sun Inn, Llanengan (01758 712660).

## Please note

- It's best to avoid high tide at Porth Neigwl beach.
- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code: ***Respect, Protect, Enjoy*** naturalresources.wales/media/1369/the-countryside-code.pdf







## Walk directions

From the centre of Botwnnog, near the old Post Office, cross the road and follow the route through the field to a country road leading you left towards the crossroads. From here, continue along the path through fields until you come to a lane, then turn left towards Llandygwnning church. Continue along a country lane past Saithbont and Neigwl Ganol and turn left where the route will lead you to Llangïan. Follow the country road to Llanengan, then take a path through fields as far as Nant farm at the southern-most end of Porth Neigwl. From here, enjoy the pleasant walk along the sandy beach, as far as the entrance through the sand dunes to the car park. Turn right and take the rural tarmac road in the direction of Llanengan then turn left following the Coast Path across flat agricultural land to a road at the other end of Porth Neigwl, between Saith Bont and Tŷ Mawr farms. From here, follow the path leading back through farmland, past Rhosneigwl and Neigwl Uchaf farms, returning to the same path taken on the first part of the walk, leading you back to Botwnnog.













## Points of interest

**Eglwys Llandygwnning** ① is the church of St Gwnin. The circular tower is an architectural feature unique to this church and it also contains a double pulpit.


**Eglwys Llangïan** ② is a charming ancient church. In the cemetery is a commemorative stone from the 5th or 6th century, and inside are several memorials for the soldiers and clerics of the aristocratic Edwards family of Plas Nanhoron.

A prominent path leads from Bont Newydd, between Llangïan and Llanengan up the hill to **Pen-y-gaer** ③, an old Celtic hill fort worth climbing up to if only for the views.

**Eglwys Llanengan** ④ is one of Wales' most beautiful churches. It has a commemorative stone dedicated to Einion, king of Llŷn, patron saint of the parish and founder of Bardsey abbey. It is said that the church bells and the beautiful oak screen dating back to the middle ages came here from Bardsey abbey when it was demolished.

The walk passes an old mineral works' chimney on the outskirts of the village - **Simnai Llanengan** ⑤. This used to be the ventilation chimney for the Tanrallt lead mine. Many Cornish miners came here to work when this industry was at its peak.

The main currents of the Irish Sea hit the beach at south west-facing **Porth Neigwl** ⑥. Many ships experienced difficulties in storms when seeking shelter here before being caught between two headlands and their anchors failing to secure them to the sandy bay. They were hurled by the wind and smashed onto the beach. These same huge waves are the source of much pleasure today, but they are also responsible for eroding the sand dunes every winter. An old brewing trough dating back 3,500 years was discovered on the hillside near the Nant farmhouse in 2009 (see Cwrw Llŷn visitor centre; Nefyn Circular Walk No 6).




At the south-eastern corner of Porth Neigwl, the hill slopes up to **Mynydd Cilan** ⑦. This old common land provides a circular walk above the sea cliffs. The remains of Castell Einion, Cilan Well and the old *Tai Unnos* (one night houses) add to the appeal of the area.

Rising up behind Botwnnog you will notice the peak of **Garn Fadryn** ⑧ to the north-east. On its slopes are the remains of several roundhouses from the Iron Age and traces of one of the earliest stone castles from the 12th century can be found within the hill fort at the summit.